# CRYNODEB GWEITHREDOL ASESIAD TIRWEDD A GWELEDOL

1.1 Mae gwerthusiad tirwedd a gweledol, yn seiliedig ar Ganllawiau ar gyfer Asesiad Traweffaith Tirwedd a Gweledol, trydydd argraffiad (GLVIA3), wedi'i wneud ar gyfer y safle ym Mharc Ffyniant yng Nghaergybi ar Ynys Môn. Roedd y Safle yn arfer cynnwys Cyn Waith Alwminiwm Penrhos wnaeth ddechrau cau i lawr yn 2009 gan roi'r gorau i weithredu'n gyfan gwbl yn 2013.

1.2 Mae'r canfyddiadau cychwynnol wedi'u cyflwyno o fewn y crynodeb hwn, sydd, yn gyffredinol, yn cefnogi, o safbwynt tirwedd a gweledol, addasrwydd y Safle ar gyfer datblygiad sy'n cynnwys canolfannau data (defnydd B8), swyddfeydd, ac ymchwil a datblygu (defnydd B1) a System Storio Batri ac Ynni (BESS) (defnydd Unigryw).

1.3 Mae tref harbwr Caergybi wedi'i lleoli ar Ynys Cybi, sydd ar ochr orllewinol Ynys Môn yng Nghymru, sy'n ynys fwy. Mae'r safle'n ffinio gyda'r A55 i'r de, a chyda'r A5 Ffordd Llundain i'r gogledd, sy'n darparu'r brif fynedfa i'r Safle. Mae Canol Tref Caergybi, ynghyd â Harbwr Caergybi / Terfynfa Fferi a Gorsaf Reilffordd oddeutu 1.5km i'r gogledd-orllewin. Ymhellach i'r gogledd-ddwyrain o'r Safle mae traeth Penrhos a Bae Beddmanarch. I'r de-orllewin o'r Safle mae Cyfleuster Ffin Fewnol Caergybi sy'n sefyll rhwng Maen Hir Tŷ Mawr a Siambr Gladdu Trefignath.

1.4 Wedi'i nodweddu gan ddefnydd tir blaenorol y gwaith alwminiwm, mae'r safle'n cynnwys mannau gyda llawr caled a hefyd tir moel o'r gwaith alwminiwm sydd wedi'i ddymchwel yn gyfan gwbl fwy neu lai, gan gynnwys y corn simnai 122m o uchder, oedd yn nodwedd amlwg ar nenlinell leol Ynys Cybi a rhannau gorllewinol Ynys Môn am dros 50 mlynedd. Fodd bynnag, mae nifer fechan o adeiladau a busnesau yn parhau i weithredu o fewn y Safle. Y tu hwnt i'r ardaloedd adeiledig a llawr caled sy'n aros o'r cyn waith alwminiwm, mae brithwaith o gynefinoedd, gan gynnwys ardaloedd o laswelltir heb ei reoli, gyda llystyfiant prysgwydd sydd wedi hadu ei hun yn gordyfu, porfa a pharth llifogi arfordirol a dyfrffyrdd agored. Mae ardaloedd lle mae llystyfiant coetir aeddfed presennol yn drwch wedi'u lleoli ar dwmpathau o amgylch y Safle, gan gynnwys ardaloedd lle mae coetir wedi'i blannu gyda Gorchmynion Gwarchod Coed (TPO). Nid yw'r Safle yn hygyrch i'r cyhoedd a does dim Hawl Tramwy Cyhoeddus (PRoW) o fewn ardal y safle.

**Cymeriad Tirwedd**

1.5 Saif o fewn Ardal Cymeriad Tirwedd Cenedlaethol (NCLA) 01 'Arfordir Ynys Môn lle mae'r disgrifiad yn datgan: *"Yn fwy cyffredinol, mae'r dirwedd yn ysgafn, wedi'i fframio ac yn gymharol lonydd, ond gyda nifer o ddatblygiadau graddfa fawr gwrthgyferbyniol, yn fwyaf nodedig, Gorsaf Ynni Niwclear yr Wylfa, safle awyr RAF y Fali a gwaith smeltio a chorn simnai Alwminiwm Môn".* Mae'r Ardal Cymeriad Tirlun Cenedlaethol hwn yn cwmpasu Ynys Môn gyfan ac yn cynnwys Ynys Cybi. Bydd dylanwad y datblygiad arfaethedig ar yr NCLA yn ddibwys pan fydd wedi'i gwblhau ac yn yr hirdymor. Mae'r Safle wedi'i amddiffyn yn gymharol dda rhag y dirwedd ehangach ac ni fydd y datblygiad arfaethedig yn wahanol iawn i'r defnydd a wnaed yn flaenorol o'r Safle, na'r ffurf adeiledig o amgylch o fewn Caergybi, gan gynnwys y parc manwerthu cyfagos.

1.6 Mae Strategaeth Tirwedd Ynys Môn yn darparu diweddariad ar Ardaloedd Cymeriad Tirwedd ar gyfer Ynys Môn, sydd wedi eu hadnabod o fewn astudiaeth asesiad tirwedd LANDMAP gwreiddiol ar gyfer Ynys Môn a gyhoeddwyd yn 1999. Mae'n isddosbarthu'r dirwedd yn 18 o Ardaloedd Cymeriad Tirwedd (LCA). Mae'r asesiad cymeriad gafodd ei adnabod yn yr ardal o'r Safle yn rhan o LCA2 'Ynys Cybi'. Mae'r Safle'n cael ei gynnwys yn rhannol o fewn AHNE Ynys Môn. Prif bwrpas yr enwebiad AHNE yw gwarchod nodweddion naturiol a gwerth golygfeydd arfordir Ynys Môn. Mae coetir TPO

wedi'i leoli mewn dwy ardal ar ffin gogledd-ddwyreiniol y Safle. Mae'r cynigion yn cynnwys cadw'r coetir trwchus a blannwyd ar ffin y Safle, gan gynnwys yr ardaloedd o goetir TPO. Does dim asedau treftadaeth wedi'u henwebu o fewn y safle, ond i'r gorllewin o'r safle mae dwy heneb ychydig y tu hwnt i'r A55 (Maen Hir Tŷ Mawr a siambr gladdu Trefignath). I'r dwyrain mae yna nifer o adeiladau rhestredig, gyda heneb ychydig ymhellach i'r de.

1.7 I gloi, bernir bod y safle a'r dirwedd sydd o'i amgylch yn uniongyrchol o werth tirwedd Canolig i Isel.

1.8 Ar lefel sirol a rhanbarthol, ystyrir y bydd yr effaith asesedig ar gyfer y Safle yn Ymyriad Canolig wedi iddo gael ei gwblhau, gan leihau i Niwed Canolig / Bychan unwaith mae'r seilwaith gwyrdd arfaethedig o fewn y Safle wedi aeddfedu. Bydd y ffurf adeiledig yn gyson gyda dylanwad masnachol / diwydiannol blaenorol y cyn waith a bydd cynigion GI yn darparu agweddu lleol o fudd er mwyn gwrthsefyll yr effeithiau ar LCA y safle a'r LCA3 cydffiniol cyfagos 'Môr Mewndirol'. Byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael ei drin fel elfen drefol ychwanegol o fewn y cyd-destun hwn.

1.9 Bydd y Safle a'i gyd-destun uniongyrchol yn anorfod yn agored i lefel uwch o newid yn y dirwedd. Ac eithrio tirwedd y terfyn allanol a'r parth llifogi arfordirol / ardal o ffosydd agored, sydd i'w cadw fel rhan o'r cynigion, mae'r Safle yn cynnwys ychydig iawn o nodweddion tirwedd o werth ac mae'n cynnwys yn bennaf y cyn waith alwminiwm. Byddai effaith y datblygiad arfaethedig ar gymeriad y dirwedd ar raddfa safle gyfan yn fwy nodedig ond eto byddai'n gyfyngedig ac yn lleol o ran ei faint. Byddai'r prif newid yn codi fel canlyniad uniongyrchol i'r cynnydd mewn datblygiad adeiledig a seilwaith cysylltiedig ar hyd ardal safle ehangach o'i gymharu gyda'r tir oedd yn cael ei gymryd gan y cyn waith. Byddai arwyddocâd y newid hwn i'r cymeriad yn cael ei leihau i ryw raddau gan y defnydd blaenorol a wnaed o'r Safle, gan gynnwys y cyn adeiladau diwydiannol mawr a'r corn simnai (sydd bellach wedi'u dymchwel), ac ynghyd â chyd-destun trefol presennol Caergybi, gan gynnwys Parc Manwerthu Caergybi, a'r datblygiadau presennol ac arfaethedig ar hyd Parc Cybi. Bydd y fframwaith GI arfaethedig i'r Safle yn atgyfnerthu'r coetir trwchus a blannwyd o amgylch ffiniau'r Safle a bydd yn darparu rhai buddion bach i'r Safle a'i gyd-destun yn syth o'i amgylch mewn perthynas ag effeithiau cysgodi'r cynigion. At ei gilydd, wrth ei gwblhau byddai effaith dirwedd Niweidiol Canolig o fewn y Safle gan leihau i effaith dirwedd Niweidiol Canolig / Bychan wrth i'r planhigion/coed a blennir aeddfedu.

**Effeithiau Gweledol**

1.10 Mae Gwelededd y Safle yn gyfyngedig gan ei fod wedi'i leoli ar dir is gydag effeithiau sgrinio'r topograffi lleol mewn cyfuniad gyda'r ardal o lystyfiant coetir aeddfed, trwchus ar hyd ffiniau'r safle, gan gynnwys y twmpathau a'r llystyfiant coetir ar hyd y ffin gyda'r A5 i'r gogledd a'r dwyrain, a'r ffin i'r de gyda'r rheilffordd a'r A55 Gwibffordd y Gogledd. Mae ardaloedd o goetir trwchus, aeddfed Parc Arfordirol Penrhos hefyd yn darparu cyfyngiant pellach i'r Safle i'r gogledd a'r gorllewin.

1.11 Mae bod wedi'i leoli ar gyrion tref Caergybi sydd ag ymylon trefol cryf sydd i'w weld yn eglur o rannau o'r Safle a'r cyd-destun yn union oddi amgylch, bydd unrhyw olygfeydd o ddatblygiad newydd yn llwyr yng nghyd-destun ardal drefol bresennol Parc Manwerthu Caergybi a defnydd cyflogaeth / diwydiannol blaenorol y safle. Ymhellach, gan fod y tir yn union i'r de o'r safle ym Mharc Cybi wedi ymgymryd â datblygiad masnachol a chyflogaeth yn rhannol, a'i fod hefyd wedi'i neilltuo ar gyfer datblygiad pellach, bydd y Safle, yn cael ei gynnwys yn rhannol

gan ddatblygiad newydd i'r de o'r A55.

1.12 Mae'r rhai a fyddai o bosib yn gweld y datblygiad arfaethedig a ystyrir o fewn yr Asesiad Tirwedd a Gweledol yn cynnwys preswylwyr eiddo o fewn ardal y Safle a defnyddwyr y llwybrau troed cyhoeddus yn yr ardal. Oherwydd topograffi lleol Ynys Cybi, mae derbynyddion dethol wedi eu dynodi o fewn yr asesiad, yn arbennig felly ardaloedd sydd wedi'u lleoli ar dir uwch, i'r gorllewin o Gaergybi. Mae hyn yn cynnwys defnyddwyr hawl tramwyo cyhoeddus a defnyddwyr Gwarchodfa Natur Ynys Lawd lle mae man uchel lleol Mynydd Caergybi wedi'i leoli.

1.13 Mae'r newidiadau i'r golygfeydd wedi'u cyfyngu'n bennaf i dderbynyddion sy'n preswylio'n agos at y Safle. Mae'r effeithiau gweledol ar gyfer y derbynyddion yma ar lefel Niwed Mawr-Canolig wrth gwblhau (blwyddyn1) lle mae golygfeydd llawn / rhannol. Yn y tymor hirach (blwyddyn 15), bernir y bydd yr effeithiau hyn yn lleihau i raddfa Niwed Canolig - Llai. Bydd mwyafrif yr effeithiau gweledol ar gyfer gweddill y derbynyddion sydd wedi'u hadnabod o fewn yr asesiad, gan gynnwys hawl tramwyo defnyddwyr ar Lwybr Arfordir Ynys Môn a Gwarchodfa Natur Ynys Lawd yn amrywio o Niwed Canolig i Fach / Dim Niwed wrth gwblhau (blwyddyn 1), gan leihau i Niwed Bach / Dim Niwed o gwbl yn y tymor hirach (blwyddyn 15).

1.14 O ganlyniad, ac o gofio cyd-destun defnydd diwydiannol blaenorol y Safle oedd yn cynnwys adeiladau diwydiannol a strwythurau mawr, ystyrir bod y Safle yn ardal resymegol i fwrw ymlaen gyda datblygiad sy'n cael ei arwain gan gyflogaeth, gan ddarparu cyfleoedd i GI newydd gael ei greu fydd yn cryfhau nodweddion safle a gadwyd, ac yn ei dro, y dirwedd leol, yn ogystal â lliniaru unrhyw effeithiau gweledol posib. Yn bwysig iawn, mae'r datblygiad yn darparu cyfle i greu rhwydwaith holistig, wedi'i integreiddio a'i gysylltu'n llawn o GI ar draws holl ddatblygiad arfaethedig y cyn safle tir llwyd.